

Briff Ymchwil

# Y Gyfres Gynllunio: 17 – Cydsynio seilwaith cynhyrchu ynni

Awdur: **Katy Orford ac Elfyn Henderson**

Dyddiad: **Mawrth 2018**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Katy Orford ac Elfyn Henderson**
Dyddiad: **Mawrth 2018**
Rhif Papur: **18-027**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 7174**
: **Katy.Orford@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Gyfres Gynllunio: 17 – Cydsynio seilwaith cynhyrchu ynni

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil



## Cynnwys



1. Trosolwg ..... 1
2. Beth yw'r broses bresennol ar gyfer cydsynio ynni? ..... 1
   - Prosiectau ar y tir ..... 1
   - Prosiectau ar y môr ..... 3
3. Pa newidiadau y mae Deddf Cymru 2017 yn eu gwneud? ..... 3
   - Ar y tir ..... 3
   - Ar y môr ..... 3
4. Sut y mae Deddf Cymru 2017 yn effeithio ar gydsynio ar gyfer datblygiadau cysylltiedig ..... 4
5. Y ddeddfwriaeth ..... 4
6. Ffynonellau allweddol ..... 5
   - Llywodraeth Cymru ..... 5
   - Senedd y DU ..... 5
   - Cymorth Cynllunio Cymru ..... 5
   - Y Porth Cynllunio ..... 5
   - Y Gwasanaeth Ymchwil ..... 5



Y broses caniatâd presennol ac yn y dyfodol ar gyfer

# Cynhyrchu ynni gwynt yng Nghymru

*Y broses caniatâd PRESENNOL (Mawrth 2018) ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni gwynt ar y tir ac ar y môr yng Nghymru, a'r broses caniatâd DISGWYLIEDIG ar ôl cychwyn adran 39 o Ddeddf Cymru 2017 yn llawn, a ddisgwylir ar ôl mis Ebrill 2019.*



*Ar y tir*

*Ar y môr*

*Dyfroedd tiriogaethol Cymru hyd at 12 milltir fôr*

## Y broses caniatâd presennol

| | Hyd at 10MW | Dros 10MW | 1-100MW | Dros 100MW |
|---|---|---|---|---|
| *Yr awdurdod penderfynu* | Awdurdodau cynllunio lleol | Llywodraeth Cymru | Sefydliad Rheoli Morol | Llywodraeth y DU |
| *Y gyfundrefn gynllunio* | Cynllunio Gwlad a Thref | Cynllunio Gwlad a Thref – datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol | Adran 36 Deddf Trydan 1989 | Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol |

## Y broses caniatâd yn y dyfodol

| | Hyd at 10MW | Dros 10MW | 1-350MW | Dros 350MW |
|---|---|---|---|---|
| *Yr awdurdod penderfynu* | Awdurdodau cynllunio lleol | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth y DU |
| *Y gyfundrefn gynllunio* | Cynllunio Gwlad a Thref | Cynllunio Gwlad a Thref – datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol | Adran 36 Deddf Trydan 1989 | Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol |

National Assembly for Wales
Research Service



# Y broses caniatâd presennol ac yn y dyfodol ar gyfer **Cynhyrchu ynni (ar wahân i wynt) yng Nghymru**

*Y broses caniatâd presennol (Mawrth 2018) ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni ar y tir ac ar y môr (ar wahân i wynt) yng Nghymru, a'r broses caniatâd DISGWYLIEDIG ar ôl cychwyn adran 39 o Ddeddf Cymru 2017 yn llawn, a ddisgwylir ar ôl mis Ebrill 2019.*

*Ar y tir*

*Ar y môr*
*Dyfroedd tiriogaethol Cymru hyd at 12 milltir fôr*

## Y broses caniatâd presennol

| | Hyd at 10MW | 10 - 50MW | Dros 50MW | 1-100MW | Dros 100MW |
|---|---|---|---|---|---|
| *Yr awdurdod penderfynu* | Awdurdodau cynllunio lleol | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth y DU | Sefydliad Rheoli Morol | Llywodraeth y DU |
| *Y gyfundrefn gynllunio* | Cynllunio Gwlad a Thref | Cynllunio Gwlad a Thref – datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol | Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol | Adran 36 Deddf Trydan 1989 | Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol |

## Y broses caniatâd yn y dyfodol

| | Hyd at 10MW | 10 - 350MW | Dros 350MW | 1-350MW | Dros 350MW |
|---|---|---|---|---|---|
| *Yr awdurdod penderfynu* | Awdurdodau cynllunio lleol | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth y DU | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth y DU |
| *Y gyfundrefn gynllunio* | Cynllunio Gwlad a Thref | Cynllunio Gwlad a Thref – datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol | Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol | Adran 36 Deddf Trydan 1989 | Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol |

National Assembly for Wales
Research Service

# 1. Trosolwg

Mae'r ystod o wahanol brosesau cydsynio ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan yn creu darlun cymhleth.

Caiff gwahanol gategorïau datblygu eu cydsynio o dan wahanol gyfundrefnau ac maent naill ai wedi'u datganoli i Gymru neu'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU neu'r Sefydliad Rheoli Morol, gan ddibynnu ar y prosiect. Mae'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan yn dibynnu ar y canlynol:

> *a) a yw'r prosiect ar y tir neu ar y môr (yn nyfroedd tiriogaethol Cymru – hyd at 12 milltir forol);*
>
> *b) ai gorsaf cynhyrchu gwynt ydyw ai peidio (ar gyfer datblygiadau ar y tir yn unig); ac*
>
> *c) capasiti cynhyrchu ynni'r orsaf, wedi'i fesur mewn megawat (MW).*

Mae datganoli pwerau ar gyfer cydsynio prosiectau cynhyrchu trydan yn newid wrth i ddarpariaethau perthnasol *Deddf Cymru 2017* ddod i rym. Mae'r briff hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol a sut y bydd hyn yn newid gyda chychwyn darpariaethau *Deddf Cymru 2017*.

# 2. Beth yw'r broses bresennol ar gyfer cydsynio ynni?

## Prosiectau ar y tir

### Gwynt

#### i. Cynhyrchu trydan hyd at 10MW – penderfyniadau'r awdurdod cynllunio lleol

Yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gyfrifol am gydsynio prosiectau bach ar gyfer cynhyrchu trydan ar y tir (o dan 10MW) yn achos gosodiadau gwynt a di-wynt. Mae'r broses yn dilyn yr hyn sydd yn *Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*. Gwneir y penderfyniad drwy archwilio'r cais yng nghyd-destun y canlynol:

– Y **polisi cynllunio cenedlaethol** a'r **canllawiau** fel y'u paratoir gan Lywodraeth Cymru;

– Y polisïau yng **Nghynllun Datblygu** yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal; a

– Materion perthnasol eraill, a elwir yn 'ystyriaethau materol'.

Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i gymryd cyfrifoldeb oddi wrth awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio gan ddefnyddio pwerau o dan *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*. Mae'r **broses 'galw i mewn' (PDF 158KB)** hon yn effeithio ar nifer fechan o geisiadau'n unig, er enghraifft datblygiadau ar raddfa fawr a materion cynllunio o bwysigrwydd mwy na phwysigrwydd lleol.

#### ii. Cynhyrchu trydan dros 10MW – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru

Yn 2016, cyflwynwyd categori newydd o geisiadau cynllunio ar gyfer **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** (DAC) o dan *Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015*. Mae'r categorïau DAC i'w gweld yn *Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016*. Mae'r gyfundrefn DAC yn ymdrin â phrosiectau seilwaith ar raddfa fawr ac, o ran gorsafoedd cynhyrchu trydan gwynt ar y tir, mae'n cynnwys capasiti o fwy na 10MW heb unrhyw derfyn uwch (y terfyn uwch ar gyfer prosiect di-wynt ar y tir yw 50MW fel y nodir yn adran iv).

Caiff ceisiadau cynllunio ar gyfer DAC eu cyflwyno i Arolygiaeth Gynllunio Cymru, a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt. Hyd at 36 wythnos yw'r amserlen statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau am geisiadau DAC sy'n dod i law. Gwneir y penderfyniad drwy archwilio'r cais yng nghyd-destun y canlynol:

– Y polisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau fel y'u paratoir gan Lywodraeth Cymru;

– Y polisïau yng Nghynllun Datblygu yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal; ac

– Unrhyw faterion eraill, a elwir yn 'ystyriaethau materol'.

Mae'r broses ymgeisio DAC wedi'i chynllunio â 'dechrau dwys', gyda chyfnod ymgynghori cyn gwneud cais, sy'n digwydd cyn rhoi hysbysiad a chyn i'r broses ymgynghori ffurfiol ddechrau. Caiff y gwaith ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid ei ystyried yn hanfodol i wneud y broses DAC yn effeithiol er mwyn datrys cynifer o broblemau â phosibl cyn cyflwyno'r cais i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Y cam cyn-hysbysu gwirfoddol hwn yw'r cyfle gorau i ddylanwadu ar brosiect DAC.

## Di-wynt

### iii. Cynhyrchu trydan hyd at 10MW – penderfyniadau'r awdurdod cynllunio lleol

Fel yn achos prosiectau gwynt ar y tir, cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw cydsynio prosiectau bach ar gyfer cynhyrchu trydan di-wynt ar y tir (hyd at 10MW). Mae'r broses yn dilyn *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* (adran i uchod).

### iv. Cynhyrchu trydan 10-50MW – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am orsafoedd cynhyrchu trydan di-wynt ar y tir sydd â chapasiti o 10-50MW o dan y gyfundrefn DAC. Yn wahanol i brosiectau gwynt, sydd heb derfyn uwch o dan y categori DAC (adran ii), 50MW yw'r terfyn uwch ar gyfer prosiectau di-wynt ar y tir.

### v. Cynhyrchu trydan dros 50MW – Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol Llywodraeth y DU

Ymdrinnir â phrosiectau seilwaith mawr di-wynt ar y tir sy'n fwy na'r categori DAC o gapasiti cynhyrchu trydan 10-50MW gan Lywodraeth y DU drwy'r broses **Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)**. Cyflwynodd *Deddf Cynllunio 2008* y broses gydsynio NSIP (a ddiwygiwyd wedi hynny drwy *Ddeddf Lleoliaeth 2011*). Mae nifer o ddogfennau cyfarwyddyd i'w cael ar **wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol**.

Mae NSIPs yn gofyn am fath o gydsyniad a elwir yn 'gydsyniad datblygu' a rhoddir **Gorchymyn Cydsynio Datblygiad (DCO)**. O dan broses NSIP Llywodraeth y DU, caiff penderfyniadau eu gwneud ar sail y 12 **Datganiad Polisi Cenedlaethol**, ac mae chwech o'r rhain yn ymdrin â pholisi ynni. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch rhoi DCO. Mae gan y broses hon ddechrau dwys gyda nifer o ofynion ymgynghori cyn bod modd gwneud cais. Gan ddibynnu ar gymhlethdod y prosiect, gall gymryd sawl blwyddyn i'r ymgeisydd gwblhau'r rhain. Ar ôl cyflwyno cais NSIP, cyfanswm cyfnodau penodol y broses yw oddeutu 12-15 mis. Mae hyn yn hwy na'r amserlen ar gyfer ceisiadau DAC sy'n dod i law, sef hyd at 36 wythnos.

Mae prosiectau gwynt ar y tir yn eithriad i'r trefniant hwn - mae cydsynio pob prosiect gwynt ar y tir wedi'i ddatganoli, ni waeth am y megwat. Tynnwyd prosiectau gwynt ar y tir o'r gyfundrefn NSIP drwy *Ddeddf Ynni 2016*. Fel y nodwyd, ar hyn o bryd, Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar brosiectau â chapasiti cynhyrchu o fwy na 10MW drwy'r broses DAC, ac awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ar rai dan 10MW (adrannau i a ii).

## Prosiectau ar y môr

**vi. Cynhyrchu trydan 1-100MW – y Sefydliad Rheoli Morol (y DU)**

Yn achos prosiectau ar y môr, y **Sefydliad Rheoli Morol (MMO)** (corff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir gan Defra) sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau am orsafoedd cynhyrchu trydan â chapasiti o 1-100MW. Caiff hyn ei bennu yn adran 36 o *Ddeddf Trydan 1989*. Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon o'r Ysgrifennydd Gwladol i'r MMO ym mis Ebrill 2010. Nid yw cyfundrefn DAC Llywodraeth Cymru yn gymwys i brosiectau ar y môr. Yn achos pob math o brosiectau, mae trwydded forol yn ofynnol o dan adran 65 *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*, ynghyd â'r prif gydsyniad. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n rhoi'r rhain.

**vii. Cynhyrchu trydan dros 100MW – Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol Llywodraeth y DU**

Caiff gorsafoedd ar y môr â chapasiti cynhyrchu o fwy na 100MW eu cyfrif yn NSIPs ac maent yn gofyn am Orchymyn Cydsynio Datblygiad a roddir gan Ysgrifennydd Gwladol perthnasol Llywodraeth y DU (adran v). Eto, mae angen cael trwydded forol, a roddir gan CNC o dan adran 65 *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*, ynghyd â'r prif gydsyniad.

# 3. Pa newidiadau y mae Deddf Cymru 2017 yn eu gwneud?

## Ar y tir

Mae *Deddf Cymru 2017* yn datganoli pwerau cydsynio pellach i Gymru. Mae adran 39 yn ymestyn y terfyn presennol o 50MW ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan di-wynt ar y tir i 350MW. Wedi i'r pwerau hyn gael eu trosglwyddo (**disgwylir cychwyn** ym mis Ebrill 2019[1]), gallai Llywodraeth Cymru benderfynu dod â'r cynlluniau ynni mwy hyn o hyd at 350MW o fewn y diffiniad DAC. Mae **papur ymgynghori Llywodraeth Cymru** yn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud hyn (mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn rhoi pwerau i amrywio'r diffiniad). Bydd prosiectau uwchlaw 350MW yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn NSIP, gyda chymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Nid yw *Deddf Cymru 2017* yn newid y sefyllfa o ran prosiectau cynhyrchu trydan gwynt ar y tir. Mae'r prosiectau hyn eisoes wedi'u datganoli'n llawn i Gymru yn sgil eu tynnu o'r gyfundrefn NSIP drwy *Ddeddf Ynni 2016*.

## Ar y môr

Mae adran 39 o *Ddeddf Cymru 2017* yn datganoli prosiectau ar y môr hyd at gapasiti cynhyrchu o 350MW. Bydd hyn yn ymestyn y terfyn presennol o 1MW.

Ar hyn o bryd, mae'r MMO yn rhoi cydsyniad ar gyfer prosiectau rhwng 1 a 100MW o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989. Pan fydd adran 39 o Ddeddf Cymru 2017 wedi cychwyn yn llawn, bydd Llywodraeth Cymru yn cydsynio prosiectau rhwng 1 a 350MW o dan yr un Ddeddf. Eto, bydd prosiectau uwchlaw 350MW yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn NSIP ac Ysgrifennydd Gwladol y DU fydd yn penderfynu arnynt.

---

[1] Bydd rheoliad 5 o Reoliadau (Cychwyn Rhif 4) *Deddf Cymru 2017* (O.S 2017/1179) yn cychwyn adrannau 39-42 Deddf Cymru 2017 o 1 Ebrill 2019 (i'r graddau nad yw'r adrannau hynny eisoes mewn grym ar y dyddiad hwnnw).

# 4. Sut y mae Deddf Cymru 2017 yn effeithio ar gydsynio ar gyfer datblygiadau cysylltiedig

Mae 'datblygiad cysylltiedig' yn ddatblygiad sy'n gysylltiedig â'r prif ddatblygiad ac yn cefnogi naill ai adeiladu neu weithredu'r prif ddatblygiad, neu'n helpu i fynd i'r afael â'i effeithiau. Mae enghreifftiau'n cynnwys llinellau uwchben/tanddaearol, is-orsafoedd a chyfleusterau storio gwastraff.

Mae *Deddf Cymru 2017* yn cynnwys darpariaeth, o dan adran 43, i ddatrys anghysondeb blaenorol yn y broses gydsynio ynghylch 'datblygiadau cysylltiedig'. Yr anghysondeb oedd bod cyfundrefn *Deddf Cynllunio 2008* yn eithrio cymeradwyaeth ar gyfer datblygiadau cysylltiedig â phrosiectau yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu, yn achos prosiectau ynni mawr yng Nghymru lle mai'r broses gydsynio ar gyfer y prif brosiect oedd y broses NSIP, mai'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol yng Nghymru a oedd yn penderfynu ar y datblygiad cysylltiedig. Mae hyn wedi newid drwy adran 43 *Deddf Cymru 2017*, a gychwynnwyd ar 31 Mawrth 2017, er mwyn alinio'r cyfrifoldeb dros roi cydsyniad ar gyfer datblygiadau cysylltiedig â phrosiectau ynni a'r cyfrifoldeb dros roi cydsyniad ar gyfer y prif brosiect.

Mae'r prosesau wedi'u halinio fel hyn yn Lloegr ers i *Ddeddf Cynllunio 2008* gyflwyno'r broses NSIP. Mae'r newid yng Nghymru yn dilyn argymhelliad a wnaed gan y Comisiwn Silk a chytundeb Dydd Gŵyl Dewi i geisio lleihau cymhlethdod, costau, oedi ac ansicrwydd yn y broses ar gyfer cydsynio prosiectau ynni mawr.

# 5. Y ddeddfwriaeth

***Deddf Cymru 2017 -*** yn datganoli'r cyfrifoldeb dros gydsynio prosiectau cynhyrchu ynni hyd at 350MW ar y tir ac ar y môr i Gymru. Mae hefyd yn alinio'r cyfrifoldeb dros roi cydsyniad ar gyfer 'datblygiad cysylltiedig' ar gyfer prosiectau ynni a'r cyfrifoldeb dros roi cydsyniad ar gyfer y prif brosiect;

***Deddf Cynllunio 2008*** **(diwygiwyd gan *Ddeddf Lleoliaeth 2011*)** – yn cyflwyno Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs). Caiff ceisiadau a gyflwynwyd cyn *Deddf Cynllunio 2008* eu hystyried o dan *Ddeddf Trydan 1989*;

***Deddf Ynni 2016 -*** yn tynnu prosiectau cynhyrchu trydan gwynt ar y tir o'r broses Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan ddatganoli cyfrifoldeb i Gymru;

***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 –*** yn cyflwyno Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC);

***Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 –*** yn pennu'r meini prawf ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;

***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*** – y broses gynllunio ar gyfer prosiectau di-wynt ar y tir â chapasiti cynhyrchu o 50MW a llai a phrosiectau gwynt ar y tir o unrhyw fegawat; a

***Deddf Trydan 1989*** – darpariaethau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr â chapasiti cynhyrchu o fwy na 1MW ond dim mwy na 100MW (a ystyrir gan yr MMO). Darpariaethau i Lywodraeth Cymru ystyried prosiectau o dan 1MW ar y môr.

# 6. Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth, gan gynnwys

**Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9)**

## Llywodraeth y DU

Canllawiau: **Gwneud cais i gynhyrchu ynni ar y môr**

## Yr Arolygiaeth Gynllunio

Canllawiau: **Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol**

## Senedd y DU

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: **Cynllunio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Mudiad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru**; mae'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i ymwneud yn fwy effeithiol â'r system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

## Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, ond mae peth o'r cynnwys yn gymwys i Loegr yn unig.

## Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae dogfennau briffio eraill ynglŷn â chynllunio sydd wedi'u cynhyrchu gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gael ar ein gwefan: **y Gwasanaeth Ymchwil.** Mae hyn yn cynnwys dogfennau briffio am **Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** ac **Ynni Carbon Isel yng Nghymru.**